**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd

23 Medi 2022

Annwyl Lywydd,

Ar 17 Gorffennaf, fe wnaethoch ysgrifennu ataf ynglŷn â chais gan Lywodraeth Cymru i osgoi ystyriaeth Pwyllgor Cyfnod 1 o Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru). Mae’r Pwyllgor yn cydnabod nod Llywodraeth Cymru i ddefnyddio’r Bil i gefnogi ei hachos mewn perthynas â Deddf y Farchnad Fewnol yn y Goruchaf Lys. Dyna pam y mae am i’r Bil fynd drwy’r Senedd yn gyflym. Cafodd y nod hwn ei gefnogi gan dystion yn ein sesiwn graffu gychwynnol ar y Bil. Fodd bynnag, mae nifer o faterion cysylltiedig y mae angen eu hystyried ymhellach.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei chais i'r Pwyllgor Busnes i'w hystyried yn ei gyfarfod olaf cyn toriad yr haf a chyn i'r Bil hyd yn oed gael ei gyflwyno. Ar adeg y cais, nid oedd neb y tu allan i Lywodraeth Cymru yn ymwybodol o ddarpariaethau manwl y Bil. Mae gan y Llywodraeth fwyafrif cynhenid ar y Pwyllgor Busnes drwy bleidleisiau wedi’u pwysoli a gall ymarfer y mwyafrif hwnnw o'i phlaid os yw'n dymuno. Yn y cyd-destun hwn y gofynnais i'r Pwyllgor Busnes ohirio ei benderfyniad, fel y gallai'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith o leiaf wneud rhywfaint o waith ymgynghori a chraffu ar y cynigion. Wedi hynny, sicrheais ymrwymiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd i gyhoeddi Bil drafft.

Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru ar 15 Awst wedi cyhoeddi Bil drafft a chrynodeb o ymatebion i ymgynghoriad cysylltiedig a gynhaliwyd rhwng 30 Gorffennaf a 22 Hydref 2020. Galluogodd hyn y Pwyllgor i wneud rhywfaint o waith yn ystod yr haf. Fodd bynnag, rhaid imi bwysleisio bod y trefniadau hyn yn llai na boddhaol, yn enwedig o'u cymharu â gwaith craffu pwyllgor Cyfnod 1:

•Oherwydd yr amseru, dim ond ymgynghoriad cyhoeddus byr o tua 3 wythnos oedd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn gallu ei gynnal ar y Bil, gan ddechrau ar 15 Awst.

•Penderfynodd y Llywodraeth na allai gytuno i fy nghais i gyhoeddi nodiadau esboniadol, memorandwm esboniadol, nac asesiad effaith ochr yn ochr â'r Bil drafft. Golygai hyn, er enghraifft, nad oedd gan randdeiliaid ddim gwybodaeth am asesiad Llywodraeth Cymru o effaith ariannol y cynigion.

•Daeth i'r amlwg nad oedd yr ymgynghoriad yn 2020 wedi ymdrin â'r union gynigion yn y Bil. Nid oedd dau o'r cynhyrchion arfaethedig a waherddir yn y Bil drafft yn destun ymgynghoriad yn ystod 2020 ac fe'u hychwanegwyd, yn ôl y Llywodraeth, mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Nid wyf mewn sefyllfa i wybod a gafodd y wybodaeth hon ei rhannu â'r Pwyllgor Busnes ar unrhyw adeg.

Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, rwy'n falch o ddweud bod y Pwyllgor wedi cael 34 o ymatebion ysgrifenedig i'w ymgynghoriad. Mae hyn yn adlewyrchu awydd ymhlith rhanddeiliaid i gyfrannu at waith craffu ar y Bil ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd gwaith craffu pwyllgor yng Nghyfnod 1.

Mae'r Pwyllgor bellach wedi cwblhau'r cyntaf o ddau gyfarfod i glywed tystiolaeth lafar ar y Bil drafft. O ran gwaith craffu, rydym yn fodlon ein bod wedi gwneud popeth posibl o ystyried yr amser sydd ar gael. Wrth ystyried yr amserlen ar gyfer y Bil, byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod digon o amser ar gael i'r Pwyllgor glywed gan y Gweinidog a pharatoi a chyhoeddi adroddiad.

Fel y dywedais yn fy llythyr dyddiedig 11 Gorffennaf, byddai penderfyniad gan y Pwyllgor Busnes i osgoi gwaith craffu pwyllgor yn amddifadu rhanddeiliaid a'r cyhoedd o'r unig gyfle iddynt gael eu hymgynghori ar y darpariaethau manwl yn y Bil. Roedd angen gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, y tu allan i broses graffu ffurfiol y Bil, er mwyn osgoi diffyg craffu. Credaf ein bod wedi llwyddo yn ein nod. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried bod y dull hwn mewn unrhyw ffordd yn cyfateb i, ac yn sicr nid yn disodli'n ddigonol waith craffu Pwyllgor Cyfnod 1 ffurfiol.

Yn olaf, yn sgil y digwyddiadau hyn, efallai ei bod yn amserol i'r Pwyllgor Busnes ystyried pa mor briodol ydyw bod pwyllgor sydd â mwyafrif o'r Llywodraeth yn penderfynu i ba raddau y creffir ar Filiau'r Llywodraeth.

Rwy'n ddiolchgar bod y Pwyllgor Busnes wedi ymgynghori â'r Pwyllgor ar y mater hwn.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament